



---

## **Deilliannau Rheoleiddiol a Mapio Amodau**

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar ddeilliannau rheoleiddiol Cymwysterau Cymru a mapio amodau

## Cynnwys

<a href="#">1. Crynodeb Gweithredol</a> .....	3
<a href="#">2. Cefndir</a> .....	4
<a href="#">3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad</a> .....	6
<a href="#">4. Crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau</a> .....	20
<a href="#">5. Y Camau Nesaf</a> .....	23
<a href="#">Atodiad A: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad</a> .....	25

# 1. Crynodeb Gweithredol

Rhwng 26 Ebrill a 5 Gorffennaf 2017, cynhaliodd Cymwysterau Cymru ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno deilliannau rheoleiddiol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad ar y deilliannau arfaethedig ac yn egluro'r penderfyniadau a wnaed gennym o ystyried yr ymatebion hyn.

Cawsom 33 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr ar y cyfan o blaid ein deilliannau arfaethedig, a'u rôl wrth ategu dealltwriaeth o'n nodau rheoleiddiol ymhlith rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr ddryswch ynghylch rôl deilliannau yn ein model rheoleiddio.

Ni fydd y cynnig i gyflwyno deilliannau rheoleiddiol yn gweithredu fel haen ychwanegol o ofynion rheoleiddiol i gyrff dyfarnu. Fel y cyfryw, ni fydd unrhyw lwyth gwaith ychwanegol ar gyrff dyfarnu. Mae'n bwysig nodi unwaith eto na chaiff cyrff dyfarnu eu rheoleiddio yn erbyn y deilliannau hyn, ac y byddant yn parhau i weithredu'n unol â'n Hamodau Cydnabod Safonol, a dogfennau rheoleiddiol ategol eraill.

Mae'r Prif Nodau a amlinellir yn Neddf Cymwysterau Cymru yn diffinio ein diben a'n prif amcanion. Defnyddir deilliannau rheoleiddiol i ddisgrifio'r hyn rydym am ei gyflawni drwy ein gweithgareddau a'n camau rheoleiddiol, ac fel y cyfryw, byddant yn amlinellu ein gweledigaeth. Ein gweledigaeth yw y caiff cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi pennu'r deilliannau rheoleiddiol canlynol:

- Mae cymwysterau rheoleiddiedig a'r system gymwysterau yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol, yn enwedig o ran y budd hirdymor i Gymru a'i myfyrwyr;
- Mae cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru yn gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i fyfyrwyr;
- Mae cymwysterau rheoleiddiedig a gaiff eu sefyll gan fyfyrwyr yng Nghymru yn ddilys, yn ddibynadwy a chânt eu dyfarnu i safon briodol;
- Mae trefn lywodraethu briodol ar waith i sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth reoleiddiol.
- Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol i sicrhau cymwysterau rheoleiddiedig cyson o ansawdd sicr ar gael ac yn hygyrch;
- Mae rheoleiddio yn gymesur, yn dryloyw, yn gyson ac wedi'i dargedu i gefnogi system gymwysterau sydd yn gynaliadwy yn yr hirdymor;

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

## 2. Cefndir

Ym mis Chwefror 2016, lansiwyd prosiect gennym i ystyried p'un a oedd angen newid ein fframwaith rheoleiddiol a'n dull gweithredu. Nododd canfyddiadau cam cyntaf y prosiect nifer o ffactorau i ysgogi newid er mwyn cefnogi ein rôl reoleiddio yn well. Yn dilyn adborth gan gyrff dyfarnu ac ymchwil allanol a gomisiynwyd, gwnaethom benderfynu cyhoeddi deilliannau rheoleiddiol ("deilliannau").

Bwriadwyd i'r deilliannau hyn ddarparu datganiad cyhoeddus o'r hyn rydym am ei gyflawni fel rheoleiddiwr. Ni fyddai cyflwyno'r deilliannau hyn yn arwain yn uniongyrchol at unrhyw newidiadau yn ein gofynion rheoleiddiol, a byddai gyrff dyfarnu yn dal i gael eu rheoleiddio gan ddefnyddio'r pwerau amrywiol a nodir yn ein deddfwriaeth, fel yr Amodau Cydnabod Safonol ("Amodau").

Gan gofio ein prif nodau, ein bwriad wrth gyflwyno'r deilliannau hyn oedd:

- darparu datganiadau deilliannau tryloyw cyhoeddus ac felly'n hybuhyder y cyhoedd;
- cyfleu'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni fel rheoleiddiwr;
- sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddiol yn canolbwyntio ar ddeilliannau dysgwyr a system gymwysterau Cymru;
- fframio'r Amodau er mwyn dangos sut maent yn cyfrannu at gyflawni ein deilliannau rheoleiddiol.

Drafftwyd y deilliannau i gynrychioli'r nodau a rennir gan Cymwysterau Cymru a chyrrff dyfarnu.

Roedd ein deilliannau rheoleiddiol arfaethedig fel a ganlyn:

1. *Mae dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg yn ymddiried mewn cymwysterau rheoleiddiedig a gaiff eu sefyll yng Nghymru ac yn eu gwerthfawrogi, ac maent yn cael eu cydnabod ledled y DU ac yn rhyngwladol;*
2. *Mae cymwysterau rheoleiddiedig a'r system gymwysterau yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol, yn enwedig o ran y materion a ragnodir yn Neddf Cymwysterau Cymru;*
3. *Mae cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru yn gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr;*
4. *Mae asesiadau ar gyfer cymwysterau rheoleiddiedig a gaiff eu sefyll gan ddysgwyr yng Nghymru yn ddilys ac yn ddibynadwy;*


5. *Caiff cymwysterau rheoleiddiedig eu dyfarnu'n gyson i safon briodol;*
6. *Mae gan Cymwysterau Cymru a chyrrff dyfarnu drefn lywodraethu briodol ar waith i sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth reoleiddiol;*
7. *Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol i sicrhau cymwysterau rheoleiddiedig cyson o ansawdd sicr ar gael ac yn hygyrch;*
8. *Mae rheoleiddio yn gymesur, yn dryloyw, yn gyson ac wedi'i dargedu i gefnogi system gymwysterau gynaliadwy hirdymor.*

### 3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cwblhaodd cyfanswm o 33 o ymatebwyr yr ymgynghoriad ar-lein cyfan ar Ddeilliannau Rheoleiddiol a Mapio Amodau, neu ran ohono. O blith yr ymatebwyr hynny, roedd 28 ohonynt yn cynrychioli cyrff dyfarnu, roedd pedwar yn cynrychioli cyrff sector a chafwyd un ymateb gan ganolfan. Ni ddarparodd chwech ymateb unrhyw atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

**Cwestiwn 1: A yw nodau Cymwysterau Cymru ar gyfer cyflwyno deilliannau rheoleiddiol yn glir?**



#### **Ydynt**

O blith yr ymatebwyr a nododd fod y nodau ar gyfer cyflwyno deilliannau rheoleiddiol yn glir, nododd sawl un ohonynt y byddai cyfleu deilliannau rheoleiddiol clir a chryno yn helpu rhanddeiliaid i ddeall nodau rheoleiddio.

Nododd un ymatebwr ers cyflwyno'r Amodau Cydnabod Safonol<sup>1</sup> gyntaf yn 2011 eu bod wedi ehangu'n rheolaidd. O ganlyniad, roedd o'r farn bod angen diogelu yn erbyn achosion pellach o ehangu lle nad oedd hynny'n hanfodol ac nad oedd yn ychwanegu gwerth at y cymwysterau a ddyfarnwyd.

<sup>1</sup> <http://qualificationswales.org/publications/standard-conditions-of-recognition-march-2017/?lang=cy>

Roedd sawl ymatebwr o'r farn bod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r ffordd y byddai'r deilliannau yn helpu i adolygu'r Amodau. Yn yr un modd, gofynnodd yr ymatebwyr hynny am sicrwydd na fyddai cyflwyno'r deilliannau yn arwain at achosion pellach o ddargyfeirio gofynion rheoleiddiol ledled y DU nac yn dylanwadu ar achosion o'r fath.

Felly hefyd, anogodd rhai ymatebion reoleiddwyr cymwysterau ledled y DU i gydweithio er mwyn sicrhau mwy o gysondeb o ran penderfyniadau a dulliau gweithredu.

### **Nac ydynt**

O blith yr ymatebwyr a nododd fod diffyg eglurder ar gyfer cyflwyno'r deilliannau, roedd rhai o'r farn bod diffyg eglurder o ran y gydberthynas rhwng y deilliannau rheoleiddiol arfaethedig, y prif nodau trawsbynciol a'r Amodau Cydnabod Safonol ("Amodau"). Er yr ystyriwyd bod y deilliannau yn 'gyfrwng addas' ar gyfer datganiad cyhoeddus o nodau rheoleiddiol Cymwysterau Cymru, gofynnwyd a oedd y prif nodau presennol a amlinellwyd yn y Ddeddf eisoes yn cyflawni'r diben hwn, ac fel y cyfryw, p'un a oedd cyflwyno'r deilliannau yn ychwanegu gwerth. At hynny, roedd rhai o'r farn y gellid dehongli'r deilliant cyntaf fel trydydd prif nod.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o eglurder o ran yr effaith y byddai'r deilliannau yn ei chael, os o gwbl, ar yr Amodau a sut y caent eu defnyddio'n ymarferol. O'u plith, nododd un ymatebwr fod cyflwyno'r deilliannau yn awgrymu y byddai dull gweithredu tebyg i Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) yn cael ei fabwysiadu, sy'n defnyddio cyfres o egwyddorion rheoleiddiol. Roedd yr ymatebwr hwn o'r farn bod y dull gweithredu rheoleiddiol hwn yn well na'r Amodau presennol.

I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai cyflwyno'r deilliannau yn cael effaith gyfyngedig ar gyrff dyfarnu, ynghyd â'r gallu i hybu hyder y cyhoedd gan y byddai'r Amodau yn parhau i fframio ein gofynion rheoleiddiol. Nododd eraill y gallai cyflwyno'r deilliannau arwain at lwyth gwaith ychwanegol i gyrff dyfarnu sy'n gweithredu ledled y DU.

Cafwyd sylwadau ychwanegol am y defnydd o derminoleg sector, a ph'un a allai hyn arwain at wahanol ddehongliadau o'r deilliannau.

## Cwestiwn 2: A yw'r deilliannau rheoleiddiol arfaethedig yn cyflawni'r nodau hynny?



O blith yr ymatebwyr hynny a oedd o'r farn bod y broses o gyflwyno'r deilliannau yn glir, roedd un o'r farn nad oedd y cyfuniad o ddeilliannau lefel uchel a gofynion proses manwl yn ddefnyddiol. I'r perwyl hwn, gofynnwyd p'un a ddylid cadw deilliant 6 a deilliant 7, gan fod y ddau eisoes yn ddigon cadarn drwy drefniadau rheoleiddio a darpariaethau statudol presennol.

Ailbwysleisiodd yr ymatebwyr hynny a oedd o'r farn nad oedd ein nodau yn glir eu hymateb i gwestiwn 1, gan nodi ei bod yn anodd ymateb gan nad oeddent yn deall y nodau ar gyfer cyflwyno deilliannau rheoleiddiol yn llawn.



**Cwestiwn 3: Yn eich barn chi a yw'r deilliannau rheoleiddiol arfaethedig yn glir ac yn hawdd i'w deall?**



O blith y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, roedd y rhan fwyaf o'r farn bod y deilliannau yn glir ac yn hawdd i'w deall ar y cyfan.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gellid ystyried bod geiriad rhai deilliannau penodol yn oddrychol, ac roedd eraill o'r farn bod angen mwy o eglurder mewn rhai achosion. Yn ogystal, nid oedd rhai ymatebwyr yn glir ynghylch y gynulleidfa fwriadedig: ai defnyddwyr cymwysterau neu gyrff dyfarnu.

Nodir sylwadau ymatebwyr mewn perthynas â deilliannau penodol isod:

**Deilliant 1**

- diffyg eglurder mewn perthynas â defnyddio 'ymddiried' a 'gwerthfawrogi', gyda photensial ar gyfer gwahanol ddehongliadau ymhlith rhanddeiliaid;
- nid yw'r cyfeiriad at 'y DU ac yn rhyngwladol' yn glir oherwydd y cynnydd yn nifer y cymwysterau cymeradwy a gaiff eu rheoleiddio yng Nghymru yn unig. Ar y sail honno, roedd rhai o'r farn nad oedd sicrhau bod pobl yn ymddiried yn y cymwysterau ac yn eu gwerthfawrogi yn rhyngwladol yn rhan o'n cylch gwaith.

**Deilliant 2**

- ystyriwyd nad oedd y defnydd o 'materion a ragnodir yn Neddf Cymwysterau Cymru' yn glir ar ei ben ei hun. I'r perwyl hwnnw, awgrymwyd y dylai'r deilliant

gynnwys y materion uchod mewn atodiad neu droednodyn. Fel arall, gellid ailddrafftio'r deiliant hwn er mwyn darparu dealltwriaeth eang, heb fod angen cyfeirio'n uniongyrchol at y Ddeddf.

- ystyriwyd bod yr ymadrodd '...anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol' yn amwys, gan nodi bod y system ei hun yn ymatebol, ac felly'n ysgogi newidiadau i gymwysterau. O ganlyniad, teimlwyd nad oedd angen cyfeirio at 'gymwysterau rheoleiddiedig'.

### **Deiliant 3**

- awgrymwyd y byddai 'cydraddoldeb cyfle' yn fwy priodol na 'chyfle cyfartal'.
- o ystyried cymwysterau cyfyngedig, bwriwyd amheuon dros y gallu i gyflawni deiliant 3 o ran dewis dysgwyr a symudedd cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt.

### **Deilliannau 4 a 5**

- cydnabuwyd bod dyblygu yn neilliannau 4 a 5, a bod cyfle i'w cyfuno i greu un deiliant cynhwysfawr. Cynigiodd un ymatebwr fersiwn ddiwygiedig, fel a ganlyn:

*Mae asesiadau ar gyfer cymwysterau rheoleiddiedig a gaiff eu sefyll gan ddysgwyr yng Nghymru yn ddilys, yn ddibynadwy a chânt eu dyfarnu'n gyson.*

### **Deiliant 6**

- nid oedd un ymatebwr yn glir o ran pam yr oedd angen cyfeirio at y ffaith bod gan gyrff dyfarnu drefn lywodraethu briodol ar waith, gan mai deilliannau rheoleiddiol Cymwysterau Cymru oedd y rhain. Teimlwyd bod hyn yn deillio o'r ffaith bod gan Cymwysterau Cymru ei drefn lywodraethu briodol ei hun ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

### **Deiliant 7**

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y deiliant hwn yn anodd i'w ddeall heb fod yn rhan o'r system gymwysterau, gan gyfeirio'n benodol at y math o wybodaeth yr oedd ei hangen. Awgrymwyd y gellid cynnig eglurder drwy gyfleu'r ffaith bod hyn yn cyfeirio at wybodaeth a ddarperir gan Cymwysterau Cymru er mwyn galluogi gyrff dyfarnu i gyflawni eu swyddogaethau yn briodol.
- byddai cynnwys 'adnoddau' yn y deiliant yn adlewyrchu'r gofynion i gyrff dyfarnu sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau ffisegol, technegol, dynol, ariannol ac anniriaethol i allu cyflwyno cymwysterau cadarn. At hynny, teimlwyd y byddai hyn yn adlewyrchu'r amodau a oedd wedi'u mapio i'r deiliant hwn yn fwy cywir. Cynigiwyd fersiwn ddiwygiedig, fel a ganlyn:


*Mae'r wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen yn rhesymol i sicrhau cymwysterau rheoleiddiedig cyson o ansawdd sicr ar gael ac yn hygyrch.*

### **Deilliant 8**

- nododd un ymatebwr nad yw'r deilliant hwn yn addas o ran ystyried newidiadau i gefnogi system gymwysterau gynaliadwy hirdymor. Felly, cynigiwyd fersiwn ddiwygiedig o'r deilliant:

*Mae rheoleiddio yn gymesur, yn dryloyw, yn gyson, wedi'i dargedu ac yn hyblyg er mwyn addasu i newidiadau i gefnogi system gymwysterau gynaliadwy hirdymor.*


**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno bod y deilliannau rheoleiddiol arfaethedig yn adlewyrchu'r nodau a rennir gan Cymwysterau Cymru a Chyrff Dyfarnu?**



O'r ddau ymatebwr a anghytunodd, roedd un o'r farn bod rhai deilliannau yn cynrychioli nodau a rennir, gan nodi'n benodol deilliannau 1, 3, 4, 5 a 6. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwr o'r farn hyd nes y câi'r deilliannau eu hegluro, na allai ddatgan p'un a oedd yr un nodau yn nodau a rennir.

Mynegodd un ymatebwr ddryswch o ran pam bod Cymwysterau Cymru a'r cyrff dyfarnu wedi'u cyfuno, gan nodi deilliant 8 fel enghraifft lle roedd y ffocws i raddau helaeth ar sut roedd Cymwysterau Cymru yn cyflawni ei ddyletswyddau.


**Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno bod deilliant 1 yn un cynhwysfawr, a bod pob deilliant rheoleiddiol arall yn ymwneud ag ef?**



Roedd yr ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth fod deilliant 1 yn gynhwysfawr, a bod deilliannau eraill yn cyfrannu at gyflawni'r deilliant hwnnw. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai deilliant 1 yn well fel prif nod ychwanegol i Cymwysterau Cymru, yn hytrach na deilliant.

O blith yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno, roedd rhai o'r farn nad oedd yn glir i ba raddau mae deilliant 1 yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cwmpas yr holl ddeilliannau eraill. At hynny, teimlwyd y gellid dadlau bod pob deilliant rheoleiddiol yn ymwneud â'i gilydd; felly, nid oedd yn glir pam y tynnwyd sylw penodol at ddeilliant 1. Os ystyriwyd bod deilliant 1 yn deilliant cynhwysfawr, awgrymwyd y dylid nodi hyn yn benodol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

**Cwestiwn 6: Yn eich barn chi a oes unrhyw ddeilliannau rheoleiddiol ychwanegol y dylid eu cynnwys?**




Gwnaeth y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn y sylwadau canlynol:

- nid yw'r deilliannau arfaethedig yn cyfeirio mewn unrhyw ffordd at arloesedd ac ymrwymiad na fydd gwaith rheoleiddio yn atal arloesedd. Awgrymwyd y gellid adlewyrchu hyn yn un o'r deilliannau presennol (neu ychwanegol) er mwyn dangos bod arloesedd yn rhan werthfawr o'r tirlun cymwysterau. At hynny, gan fod cymwysterau yn cael eu hystyried yn gynyddol gyfyngedig yng Nghymru, teimlwyd y byddai hyn yn dangos ymrwymiad y rheoleiddiwr i sicrhau na fydd y ddarpariaeth yn sefyll yn ei hunfan wrth i gystadleuaeth gael ei dileu o rannau o'r farchnad;
- nid yw'r deilliannau arfaethedig yn cyfeirio mewn unrhyw ffordd at ddiben cymwysterau a gofynion o ran cynnydd;
- mae angen i Cymwysterau Cymru gydnabod bod rhai cyrff dyfarnu yn ceisio cynnig cynhyrchion arloesol mewn marchnad a gaiff ei rheoleiddio'n sylweddol. Felly, mae angen deiliant sy'n adlewyrchu'r cyfrifoldeb ar gyrrff dyfarnu i sicrhau bod cynhyrchion yn parhau'n berthnasol;
- ymrwymiad i gynnig cymwysterau a threfniadau asesu ar y ffurf fwyaf priodol ar gyfer y pwnc dan sylw;

- yr angen am deilliant rheoleiddiol sy'n ymwneud yn benodol â'r cyngor, yr arweiniad a'r cymorth y mae Cymwysterau Cymru yn eu rhoi i gyrff dyfarnu er mwyn hwyluso cydberthnasau busnes sydd o fudd i'r ddwy ochr a sicrhau y caiff cymwysterau rheoleiddiedig eu darparu at safon uchel.
- yr angen i ddeilliant 5 neu 7 gyfeirio at derfynau amser. Cynigiwyd fersiwn ddiwygiedig, fel a ganlyn:

*Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol i sicrhau cymwysterau rheoleiddiedig cyson o ansawdd sicr ar gael ac yn hygyrch o fewn terfynau amser priodol sy'n rhoi digon o amser i sefydliadau addysgol sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.*

**Cwestiwn 7: Yn eich barn chi a oes unrhyw ddeilliannau rheoleiddiol arfaethedig y dylid eu hepgor?**




Gwnaeth y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yr awgrymiadau canlynol:

- Dylid ystyried deilliant 1 fel prif nod ychwanegol;
- Roedd achosion o ddyblygu yn neilliannau 4 a 5, gyda chyfle i'w cyfuno i greu un deilliant cynhwysfawr;

- Dileu deilliannau 6 a 7 gan fod gofynion rheoleiddiol presennol yn ymdrin â'r ddau (gweler y dadansoddiad o Gwestiwn 2).

### Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i fapio Amodau i'r deilliannau rheoleiddiol?



Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cynigion i fapio'r Amodau i'r deilliannau, gan nodi y gallai fod yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod Amodau newydd yn angenrheidiol, nad ydynt yn dyblygu ac nad ydynt yn ychwanegu llwyth gwaith diangen.

Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r rhan fwyaf o'n cynigion i fapio Amodau i'r deilliannau. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn y gellid mapio rhai Amodau penodol yn agos i ddeillianaun, ond nad oedd cysylltiadau eraill mor amlwg. At hynny, tynnwyd sylw at wallau o ran y gwaith mapio, gyda rhai o'r Amodau wedi'u mapio ddwywaith ac eraill wedi'u geirio'n anghywir yn yr enghraifft a ddarparwyd.

Gan gydnabod bod Amodau wedi'u mapio'n wreiddiol i'r deilliant mwyaf perthnasol er mwyn osgoi achosion o ddyblygu, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai fod yn ddefnyddiol mapio'r Amodau i'r holl ddeilliannau perthnasol, ni waeth pa mor berthnasol oeddent. Teimlwyd y byddai hyn yn cynnig eglurder i gyrff dyfarnu, ac yn osgoi unrhyw senario lle y gellid ystyried bod Amod yn berthnasol i'r deilliant hwnnw.

y'i mapiwyd iddo yn unig. At hynny, byddai'n cynnig deunydd cyfeirio defnyddiol i gyrff dyfarnu weld cysylltiadau mewn perthynas ag Amodau.

Gan fod nifer yr Amodau sy'n berthnasol i bob deilliant yn amrywio'n sylweddol e.e. mae pedwar Amod wedi'u mapio i ddeilliant 3 ond mae 19 Amod wedi'u mapio i ddeilliant 7, nid oedd un ymatebwr yn glir o ran p'un a fyddai Cymwysterau Cymru yn gosod mwy o bwyslais ar ddeilliannau penodol. Awgrymodd yr ymatebwr hwn hefyd gan fod yr Amodau eisoes wedi'u grwpio o dan benawdau e.e. A, B, C, ac ati, y dylid mapio'r deilliannau i bob grŵp.

Roedd un ymatebwr o'r farn na wnaed y gwaith mapio gan ddefnyddio'r lefel manylder sy'n ofynnol gan gyrff dyfarnu, a bod angen mwy o eglurder ar y deilliannau terfynol er mwyn llywio'r farn ar y gwaith mapio yn well. I'r gwrthwyneb, nododd un ymatebwr fod y broses o fapio'r Amodau yn rhy gymhleth ac nad oedd y defnydd a wneir o'r broses yn glir.

Awgrymodd un ymatebwr os mai'r nod oedd symud i fodel tebyg i'r Alban, yna y byddai'n well cael y naill neu'r llall, oherwydd gallai'r ffaith bod y ddwy gyfres o ddeilliannau ac Amodau yn bodoli arwain at ddryswch. Nododd ymatebwr arall y byddai'n well ganddo system yn seiliedig ar ddeilliannau, gan gynnig mwy o hyblygrwydd ac arloesedd.

Mewn ymateb, cynigiwyd y newidiadau canlynol i'r broses o fapio'r Amodau:


- Gellid mapio A5 i ddeilliant 6 hefyd;
- Gellid mapio A8 i ddeilliannau 5 ac 8 hefyd;
- Gellid mapio B3 i ddeilliannau 2 ac 8 hefyd. Rhoddwyd ffocws penodol i ddeilliant 2 gan ei fod yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau sy'n cael effaith andwyol ac y gallai digwyddiadau o'r fath ddigwydd oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau;
- Ystyriwyd bod B6 yn fwy addas i ddeilliant 8 na deilliant 7;
- Gellid mapio E1 i ddeilliant 2 hefyd, ac ystyriwyd ei bod yn hanfodol ei fapio i ddeilliant 4;
- Ni ddylid mapio E7 i ddeilliant 8 gan nad ystyriwyd ei fod yn berthnasol;
- Byddai G5 yn fwy addas i ddeilliant 4 na deilliant 7. Awgrymwyd hefyd y gellid mapio G5 i ddeilliant 3;
- Dylid mapio I4 i ddeilliant 5 yn ogystal â deilliant 6 a 7. Awgrymodd rhai y byddai'n fwy rhesymegol ei gysylltu â deilliant 5 na deilliant 7. Gwnaed yr un awgrym ar gyfer I3 a H6;
- Ystyriwyd bod H6 yn fwy addas i ddeilliant 5 na deilliant 7.



**Cwestiwn 9: A fyddai gan y deilliannau rheoleiddiol arfaethedig unrhyw oblygiadau (bwriadol neu anfwriadol) o ran y canlynol:**

**(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**

**(b) trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**




Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn o'r farn y byddai'r deilliannau arfaethedig yn cael unrhyw oblygiadau (bwriadol neu anfwriadol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr os bydd darpariaeth Gymraeg yn dod yn ofyniad sylfaenol ar gyfer cynnig cymwysterau ac asesiadau yng Nghymru, na fydd o bosibl yn ymarferol i gyrff dyfarnu yn Lloegr gynnig eu hamrywiaeth lawn o gymwysterau yng Nghymru.

At hynny, roedd un ymatebwr yn aneglur o ran p'un a ddisgwyliwyd y byddai'r holl ddeunyddiau perthnasol ar gael yn Gymraeg a Saesneg. O ganlyniad, nodwyd os bydd angen i'r holl ddeunyddiau fod ar gael yn Gymraeg, hyd yn oed lle nad oes angen wedi'i nodi am hynny, y byddai hyn yn cynyddu llwyth gwaith cyrff dyfarnu yn sylweddol.

**Cwestiwn 10: A oes unrhyw oblygiadau cadarnhaol a/neu negyddol i unigolion neu grwpiau a all godi yn sgil cyflwyno deilliannau rheoleiddiol yr hoffech dynnu ein sylw atynt?**



Ni nododd unrhyw ymatebwyr unrhyw oblygiadau cadarnhaol a/neu negyddol i unigolion neu grwpiau a all godi yn sgil cyflwyno deilliannau rheoleiddiol. Fodd bynnag, ailbwsleisiodd rhai ymatebwyr hyd nes y ceir eglurhad mewn perthynas â rôl deilliannau, a sut y cânt eu gwerthuso yn y dyfodol, y byddai'n anodd ateb y cwestiwn hwn yn sicr.

### **Sylwadau ychwanegol**

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â chyflwyno deilliannau rheoleiddiol. Ceir crynodeb o'r sylwadau ychwanegol hyn isod:

- Byddai gwybodaeth flaenorol am y graddau y caiff deilliannau rheoleiddiol eu defnyddio i lywio'r broses o adolygu'r Amodau yn ddefnyddiol wrth ddarparu ymateb hyddysg i'r ymgynghoriad;
- Os mai bwriad y deilliannau rheoleiddiol yw cyfleu'r hyn y mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu ei gyflawni fel rheoleiddiwr, ansicr pam nad oes unrhyw gynnig ar hyn o bryd i fesur i ba raddau y caiff y deilliannau eu cyflawni.
- Pryderon y gellid eu cyflwyno fel haen arall o Amodau i'w defnyddio i farnu cyrff dyfarnu yn y dyfodol;

- Mae angen adolygu'r Amodau cyn cyflwyno'r deilliannau rheoleiddiol a mapio'r Amodau er mwyn pennu eu heglurder a'u heffeithiolrwydd ac i ba raddau y maent yn rhagnodol;
- Pryder na chynhelir adolygiad trylwyr o'r Amodau os caiff y gwaith o fapio'r Amodau i'r deilliannau rheoleiddiol ei gyhoeddi heb wneud unrhyw newidiadau i'r drefn a'r rhifau;
- Croesawyd bwriad Cymwysterau Cymru i adolygu'r Amodau;
- Byddai rhestr lawn o'r Amodau a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses hon wedi bod yn ddefnyddiol;
- Er bod y deilliannau o bosibl yn ddefnyddiol, teimlwyd y dylai Cymwysterau Cymru ochel rhag creu haen arall o ddatganiadau rheoleiddiol ac y dylid ystyried sut y cânt eu defnyddio yn y dyfodol;
- Mynegwyd diddordeb o ran sut y bydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu fel rheoleiddiwr yn y dyfodol, gan roi sylw penodol i'r disgwyliadau cydnabod ar gyrff dyfarnu.

## 4. Crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau

Cyflwynodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad lawer o sylwadau. Mewn sawl achos, roedd y sylwadau hyn yn ymwneud â mireinio geiriad ein deilliannau arfaethedig er mwyn gwella eu heglurder. Yn ogystal, gofynnodd ymatebwyr am fwy o eglurder o ran ein bwriad wrth gyflwyno'r deilliannau rheoleiddiol, a'u lleoliad o fewn fframwaith rheoleiddiol cyffredinol Cymwysterau Cymru.

Er nad ydym wedi nodi pob ymateb yn yr adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad, rydym wedi ystyried pob ymateb wrth wneud ein penderfyniadau. Nodwn ein hymatebion i'r themâu allweddol a nodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad isod:

### Diben deilliannau rheoleiddiol

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad pellach o ran ein bwriad wrth gyflwyno'r deilliannau rheoleiddiol, a'r gydb berthynas rhwng ein prif nodau a'r deilliannau. Hoffem ailbwysleisio nad diben cyflwyno'r deilliannau rheoleiddiol yw creu haen ychwanegol o ofynion rheoleiddiol i gyrff dyfarnu. Fel y cyfryw, ni fydd unrhyw lwyth gwaith ychwanegol ar gyrff dyfarnu. Mae'n bwysig nodi unwaith eto na chaiff cyrff dyfarnu eu rheoleiddio yn erbyn y deilliannau hyn, ac y byddant yn parhau i weithredu'n unol â'n Hamodau Cydnabod Safonol, a dogfennau rheoleiddiol ategol eraill.

Mae'r Prif Nodau a amlinellir yn Neddf Cymwysterau Cymru yn diffinio ein diben a'n prif amcanion. Defnyddir deilliannau rheoleiddiol i ddisgrifio'r hyn rydym am ei gyflawni drwy ein gweithgareddau a'n camau rheoleiddiol, ac fel y cyfryw, byddant yn amlinellu ein gweledigaeth. Ein gweledigaeth yw y caiff cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi pennu deilliannau rheoleiddiol.

### Drafftio'r Deilliannau Rheoleiddiol

Nododd rhai ymatebwyr eu bod o'r farn y byddai deilliant 1 yn well fel prif nod ychwanegol i Cymwysterau Cymru yn hytrach na deilliant. Mae'n bwysig nodi bod ein dau Brif Nod wedi'u nodi yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015, sy'n diffinio ein diben a'n prif amcanion. I'r gwrthwyneb, defnyddir ein deilliannau rheoleiddiol i ddisgrifio'r hyn rydym am ei gyflawni drwy ein gweithgareddau a'n camau rheoleiddiol, ac fel y cyfryw, maent yn amlinellu ein gweledigaeth. Felly, rydym o'r farn bod y prif nodau a'r deilliannau rheoleiddiol yn cyflawni gwahanol swyddogaethau.

Fodd bynnag, o gofio yr ystyriwyd i raddau helaeth fod deilliant 1 yn ganlyniad cyffredinol, a'i fod yn berthnasol i'r holl ddeilliannau eraill, rydym yn cydnabod y gallai ei gynnwys fel deilliant ynddo'i hun arwain at ddryswch. Er mwyn osgoi dryswch o'r fath, rydym yn cynnig y dylid sicrhau gwahaniaeth amlwg rhwng ein

datganiad gweledigaeth, a'r deilliannau rheoleiddiol a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth honno.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd cyfeiriadau at 'faterion a ragnodir yn Neddf Cymwysterau Cymru' y neilliant 2 yn glir ar eu pen eu hunain. I'r perwyl hwnnw, awgrymwyd y gallai'r deilliant gynnwys atodiad neu droednodyn er mwyn darparu'r wybodaeth ychwanegol hon. Fel arall, awgrymwyd y gellid ailddrafftio'r deilliant er mwyn darparu dealltwriaeth eang, heb fod angen cyfeirio'n uniongyrchol at y Ddeddf. Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, rydym yn cynnig ailddrafftio'r deilliant er mwyn darparu'r ddealltwriaeth eang hon o'r ffordd y dyluniwyd yr wyth mater, er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar fudd hirdymor Cymru a'i dysgwyr.

Nododd rhai ymatebwyr fod achosion o ddyblygu yn neilliannau 4 a 5, a bod cyfle i'w cyfuno i greu un deilliant cynhwysfawr. Mewn ymateb, rydym wedi diwygio ac wedi uno'r ddau i greu un deilliant cynhwysfawr.

### **Mapio'r Amodau**

Nodwyd pob sylw a gafwyd am ein gwaith arfaethedig i fapio'r Amodau ac ystyriwyd y sylwadau hynny. Cynigiodd rai sylwadau ddiwygiadau i'r mapio presennol, a gofynnodd eraill faint o fanylder y dylid ei gynnwys yn y gwaith mapio. At hynny, nodwyd rhai gwallau yn y gwaith mapio Amodau arfaethedig a gynhwyswyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Caiff y gwallau hyn eu cywiro cyn eu cyhoeddi.

Prif ddiben mapio'r Amodau i'r deilliannau oedd sicrhau bod ein deilliannau rheoleiddiol a'r gydberthynas eang â'r Amodau yn cael cyhoeddusrwydd. Ni fwriadwyd i'r broses fod yn rhan o'n gwaith rheoleiddio. Fel y cyfryw, ni fyddwn yn eu defnyddio at unrhyw ddiben rheoleiddiol.

Fel yr amlinellir yn ein dogfen ymgynghori, ar ôl cyflwyno'r deilliannau rheoleiddiol, byddwn yn cynnal adolygiad o'n Hamodau o ran eu heglurder, eu heffeithiolrwydd ac i ba raddau y maent yn rhagnodol. Bwriedir i'r adolygiad hwn ddechrau yn ystod hydref 2017. Ar ôl hynny, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw newidiadau posibl i'r Amodau, gyda'r bwriad o gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r Amodau yn ystod gwanwyn 2019 a'u rhoi ar waith o fis Medi 2019.

O ystyried yr uchod, rydym wedi penderfynu gohirio'r broses o fapio'r Amodau i'n deilliannau rheoleiddiol tan y bydd yr adolygiad o'r Amodau wedi'i gwblhau. Bydd hyn yn golygu y gellir cynnal adolygiad trylwyr, gan sicrhau hefyd bod y gwaith mapio a gyhoeddir gennym yn adlewyrchu'r Amodau y bydd cyrff dyfarnu yn ddarostyngedig iddynt ar ôl yr adolygiad. Felly, byddwn yn ailystyried y gwaith o fapio'r Amodau i'r deilliannau rheoleiddiol ar ôl cwblhau ein hadolygiad.

## **Achosion posibl o ddargyfeirio o gymharu â rheoleiddwyr cymwysterau eraill ledled y DU**

Mynegodd rhai ymatebwyr awydd i reoleiddwyr cymwysterau ledled y DU gydweithio er mwyn sicrhau mwy o gysondeb o ran penderfyniadau a dulliau gweithredu.

Fel y nodwyd uchod, byddwn yn cynnal adolygiad o'n Hamodau gyda'r bwriad o sicrhau eu bod mor hygyrch â phosibl i gyrff dyfarnu, ond gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn ein galluogi fel rheoleiddiwr i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol. Roedd y gyrff dyfarnu a gymerodd ran yn ein Prosiect Strategaeth Reoleiddiol o blaid yr adolygiad hwn.

Caiff Ofqual a CCEA (y naill yn reoleiddiwr cymwysterau, arholiadau ac asesiadau yn Lloegr a'r llall yng Ngogledd Iwerddon) eu cynrychioli yn y cyfarfodydd gyda'r gyrff dyfarnu a fydd yn dechrau yn ystod yr hydref fel rhan o'r adolygiad. Byddwn yn anelu at sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i Amodau mor gyson â phosibl, ond gan gydnabod na fydd hyn bob amser yn bosibl o dan bob amgylchiad.

## **Rheoleiddio er mwyn helpu gyrff dyfarnu i arloesi**

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd y deilliannau yn adlewyrchu'r angen i arloesi yn ddigonol, a bod hyn yn rhan werthfawr o'r tirlun cymwysterau. Er mwyn sicrhau hyn, awgrymodd un ymatebwr y dylid diwygio deilliant 8 yn unol â hynny, gan gyfeirio at y ffaith bod y drefn reoleiddio yn hyblyg ac yn gallu addasu i newidiadau.

Rydym o'r farn bod deilliant 1, sy'n cyfeirio at yr angen i *'gymwysterau rheoleiddiedig a'r system gymwysterau ymateb i anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol'*, yn ymdrin yn ddigonol â'r agwedd hon.

## 5 Y Camau Nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, byddwn yn cyhoeddi ein deilliannau rheoleiddiol terfynol.

Defnyddir ein deilliannau rheoleiddiol i ddisgrifio'r hyn rydym am ei gyflawni drwy ein gweithgareddau a'n camau rheoleiddiol, ac fel y cyfryw, byddant yn amlinellu ein gweledigaeth. Ein gweledigaeth yw y caiff cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym felly wedi pennu'r d rheoleiddiol canlynol:

- Mae cymwysterau rheoleiddiedig a'r system gymwysterau yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol, yn enwedig o ran y budd hirdymor i Gymru a'i myfyrwyr;
- Mae cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru yn gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i fyfyrwyr;
- Mae cymwysterau rheoleiddiedig a gaiff eu sefyll gan fyfyrwyr yng Nghymru yn ddilys, yn ddibynadwy a chânt eu dyfarnu i safon briodol;
- Mae trefn lywodraethu briodol ar waith i sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth reoleiddiol.
- Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol i sicrhau cymwysterau rheoleiddiedig cyson o ansawdd sicr ar gael ac yn hygyrch;
- Mae rheoleiddio yn gymesur, yn dryloyw, yn gyson ac wedi'i dargedu i gefnogi system gymwysterau sydd yn gynaliadwy yn yr hirdymor;

## **Rhagor o Wybodaeth:**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Y Tîm Polisi Strategol  
Cymwysterau Cymru  
Adeilad Q2  
Pencarn Lane  
Parc Imperial  
Coedcernyw  
Casnewydd  
NP10 8AR

[polisi@cymwysteraucymru.org](mailto:polisi@cymwysteraucymru.org)



## Atodiad A: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Gwnaethom ofyn i ymatebwyr nodi ym mha rinwedd yr oeddent yn ymateb fel rhan o'u hymateb.

Isod, rhestrir yr ymatebwyr hynny a gyflwynodd ymateb i'r ymgynghoriad, ac a nododd eu bod yn fodlon i ni gyhoeddi eu manylion.

- MP Awards
- FIA (Cymdeithas y Diwydiant Tân)
- GQA Qualifications Ltd
- ASCL Cymru
- Highfield Qualifications
- City and Guilds
- Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu
- OCR